Layton Jenkins

ADRODDIAD BLYNYDDOL

. . . EGLWYSI . . .

# SALEM

A

# SEION

## Swydd Van Wert,

### Ohio,

**AM Y FLWYDDYN 1896.**

ARGRAFFWYD YN
SWYDDFA Y REPUBLICAN,
VAN WERT, OHIO.

ADRODDIAD BLYNYDDOL

. . . EGLWYSI . . .

# SALEM

A

# SEION

## Swydd Van Wert,

## Ohio,

### AM Y FLWYDDYN 1896.

ARGRAFFWYD YN
SWYDDFA Y REPUBLICAN
VAN WERT, OHIO.

# ANERCHIAD

ANWYL FRODYR A CHWIORYDD.

Mae yn hyfrydwch i ni gael cyflwyno i'ch sylw, am y tro cyntaf, adroddiad blynyddol argraffedig o weithrediadau eglwysi Salem a Seion. Credwn fod y symudiad hwn yn welliant mawr ar yr hen ddull, ac y deillia lles o hono. Dylai cymdeithasau crefyddol, os am fyw, symud gyda gwelliantau yr oes, a cheisio dod yn fwy trefnus, ac ymarferol, gyda holl ranau yr achos.

Nid yw yr Adroddiad hwn yn bobpeth ag y buasem yn ddymuno; nis gellir disgwyl i'n hymgais gyntaf fod yn berffaith, ond hyderwn y byddwn yn ymberffeithio trwy ymarferiad.

Yn y gorphenol, y penteulu yn unig, fel rheol, fyddai yn cyfranu yn mhob teulu; felly byddai llawer o gyflawn aelodau heb gyfranu dim, yr hyn ni gredwn, oedd yn gam a'r cyfryw, a buasai yn hacrwch mawr ar Adroddiad argraffedig. Ceisiwyd cuddio y diffyg yn yr Adroddiad hwn, trwy gymell pob penteulu, ar derfyn y flwyddyn, i ranu ei gyfraniadau rhwng gwahanol aelodau y teulu; ond hyderwn y bydd y drwg wedi ei lwyr ddileu erbyn y tro nesaf, trwy i bob CYFLAWN AELOD ddod i deimlo ei rwymedigaeth bersonol i gyfranu, yn ol eu allu, at achos yr Arglwydd, oblegid mae gwneyd hyn yn ysgrythyrol, ac yn unol a'n rheolau cymdeithasol.

Credwn mai derbyniol a buddiol fyddai, y'nglyn a'r Adroddiad cyntaf hwn, gyfeirio yn fyr at gychwyniad y ddwy eglwys, a'r swyddogion fu yn eu gwasanaethu.

Dechreua hanes Sefydliad Cymreig Swydd Van Wert, gyda dyfodiad Mri. William Bebb, Thomas Morris, a Richard Jervis, y'nghyd a'u teuluoedd, yma yn Ebrill 1848. Bu y ddau deulu cyntaf yn cyd-drigo yn y caban log ar le Thomas Morris am y chwe' mis cyntaf, am nad oedd ty Mr. Bebb yn rhydd iddo.

Cadwyd moddion crefyddol y Sabboth cyntaf gan y sefydlwyr Cymreig yn y caban hwn, a pharhawyd i wneud hyd ddiwedd y chwe' mis, pryd y dechreuwyd eu cadw ar gylch; ond yn raddol daethant yn gwbl i dy Mr. Bebb. Darllenai Mr. Bebb neu Mr. Morris bregeth yn y boreu. (Yr oedd gan y cyntaf gyfrol o bregethau y Parch D. Charles, Caerfyrddin, a'r diweddaf gyfrol o'r "Pregethwr" am 1835. 6. 7.) Cedwid ysgol yn y prydnawn, a chyfarfod gweddi y nos. Ymffurfiodd y tri theulu yn gymdeithas grefyddol, a chadwyd y seiat gyntaf ganddynt am ddau o'r gloch prydnawn Mercher, yr ail wythnos wedi iddynt gyrhaedd y lle.

Y pregethwr cyntaf a dalodd ymweliad a hwy oedd y Parch Michæl D. Jones, Bala, G. C., yr hyn a fu yn Mehefin 1848.

Yn Ebrill 1849, daeth y Parch Howell Powell ar ymweliad a hwy, pryd yr aethpwyd drwy y ffurf o gorffi eglwys Fethodistaidd, ac yr anfonwyd cais gyda Mr. Powell am iddynt gael eu derbyn i undeb a Chymanfa y T. C. yn Ohio, yr hon a gynhelid yn Newark. Yr oedd Mri. Bebb a Morris yn flaenoriaid gyda y T. C. yn Nghymru.

Yn 1853 daeth Mri. Jeremiah Parry ac Evan Thomas yma; ac yr oeddynt hwythau yn ddiaconiaid gyda y T. C. pan ddaethant yma.

Y rhai cyntaf a godwyd yn ddiaconiaid gan yr eglwys oeddynt Mri. William G. Bebb, David M. Jones, ac Abraham Jones.

Adeiliadwyd y capel cyntaf yn 1853, yr hwn a safai lle mae yr hen ysgoldy, yr hwn sydd am yr heol a thy y gweinidog. (Gwel hanes ei agoriad, Cyfaill, Rhagfyr, 1853, t. d. 471.)

Tuag 1854, dechreuwyd cadw moddion crefyddol ar y Sabboth yn y Sefydliad Uchaf, yn nhy Mr. a Mrs. Abraham Jones—Ysgol Sabbothol yn fwyaf neillduol, ond parhaent yn aelodau yn Salem hyd nes iddynt adeiladu eu capel presenol yn 1868, yr hwn a alwyd yn Seion, ac y sefydlwyd yr eglwys gan y Parchedigion Howell Powell a Thomas Edwards, (A) Cincinnati.

Mae y ddwy eglwys hyn wedi bod dan yr un ofalaeth fugeiliol o'r dechreu, ac yn para mewn undeb, ac agosrwydd serchoglawn a'u gilydd.

Gan mai ychydig yw ein gofod, rhaid ymatal, a boddloni ar roddi y restr ganlynol o swyddogion y ddwy eglwys.

# EGLWYS SALEM.

## *Y DIACONIAID.*

**William Bebb.**—Bu farw Tachwedd 11, 1856, yn 69 mlwydd oed, wedi bod yn ddiacon am tua 44 mlynedd. Efe a ystyrid yn yn dad y sefydliad. a'r achos crefyddol yn y lle. Tra y bu byw, ymddiriedid braidd bobpeth iddo. Yr oedd yn ddiacon, yn drysorydd, yn ysgrifenydd, ac yn arweinydd y gan; ond gwthiau yr ysgrifenyddiaeth yn raddol ar ei feibion; a deallwn y gwthid arwain y canu ar ysgwyddau Mr. Thomas Morris. (Gwel y Cyfaill am Tachwedd, 1857, t. d. 486, hefyd Mai, 1856, t. d. 184.)

**Thomas Morris.**—Bu farw Medi 24, 1853, yn 45 mlwydd oed. Gwr call, heddychlawn a ffyddlawn ydoedd ef. (Gwel y Cyfaill, Rhafyr, 1853, t. d. 473. Hefyd, Cenhadwr Americanaidd am Mehefin, 1854, t. d. 226.)

**Jeremiah Parry.**—Yr oedd ef yn ddiacon pan yn gadael Cymru yn y flwyddyn 1844. Daeth yma yn 1853, o swydd Putnam, a bu yn gwasanaethu yr eglwys fel swyddog yn ffyddlon hyd ei symudiad i Middle Point, O., yn 1868, lle y bu farw Mawrth 28, 1896, yn agos i 86 mlwydd oed.

**Evan Thomas.**—Daeth yntau yma yn ddiacon yn 1853. Bu farw Ebrill 27, 1857, yn 49 mlwydd oed.

**William G. Bebb.**—Dewiswyd ef yn 1858, a chyflawnodd y swydd gyda medr a ffyddlondeb hyd ei symudiad i Wisconsin, yn 1864. Bu farw Awst 21, 1894, yn Minneapolis, Minn.

**David M. Jones.**—Dewiswyd ef yn 1858.

**Abraham Jones.**—Wedi gwasanaethu am bum mlynedd ymunodd a Seion yn ei ffurfiad.

**Rowland J. Whittington.**—Daeth yma yn ddiacon rheolaidd gyda y T. C. o Cincinnati, yn Tachwedd, 1865, a bu yn swyddog gwresog a medrus yn eglwys Salem hyd ei farwolaeth. Gorphenaf 10, 1883, yn 68 mlwydd oed. (Gwel y Cyfaill. Tachwedd, 1883, t. d. 427.)

**Thomas A. Alban.**—Yr oedd ef yn ddiacon rheolaidd yn "Y Corff" pan ddaeth yma o swydd Jackson, yn niwedd y flwy-

ddyn 1865, pryd y galwodd eglwys Salem ef i'w gwasanaethu hithau yn y swydd.

**David W. Evans.**—Dewiswyd ef gan Salem yn 1869.

**Morgan H. Morgan.**—Dewiswyd yntau yr un pryd a'r diweddaf, ac wedi gwasanaethu am dair blynedd ar ddeg, ymunodd ag eglwys Horeb ar ei ffurfiad Mehefin 15, 1881.

**John T. Thomas.**
**Thomas J. Morris.** } Dewiswyd hwy gan Salem yn 1890.

## *YSGRIFENYDDION YR EGLWYS.*

Willliam Bebb tra bu byw; a'i fab William G. Bebb hyd ei ymadawiad i Wisconsin; a David W. Evans o hyny hyd yn awr, ysbaid o 34 o flynyddau.

## *Y TRYSORYDDION.*

Wedi marwolaeth Wm. Bebb, bu David M. Jones yn drysorydd yr eglwys hyd y dymunodd gael ymryddhau ddwy flynedd yn ol, pryd y dewiswyd Thomas J. Morris.

## *ARWEINYDDION Y GAN.*

Wedi marwolaeth Thomas Morris a Wm. Bebb, daeth y cyfrifoldeb o ddechreu canu yn gwbl ar William G. Bebb. Hefyd yr oedd y personau canlynol yn cymeryd cryn ddyddordeb yn, ac yn wasanaethgar gyda y canu: John Hughes, Evan B. Evans, Rowland Whittington, a Rhys Price; ond yr un a wnaeth fwyaf i godi caniadaeth y cyssegr yn Salem yw John D. Richards. Bu yn arwain y canu am dros chwarter canrif. O herwydd gwaeledd iechyd methai a gwneyd y blynyddau diweddaf fel cynt; a'r Hydref diweddaf ymryddhaodd, a thaflodd y cyfrifoldeb ar Robert R. Thomas, a chodwyd Mri. Wm. C. Morgan a Richard Breese at y brawd Thomas. Dangosodd yr eglwys ychwaneg nag unwaith ei gwerthfawrogiad o lafur Mr. Richards a chyflwynodd dysteb iddo ar ei ymddiswyddiad.

## *Y CASGLIAD CYFFREDINOL.*

Yr uchod, yw yr enw a rydd yr eglwys ar y casgliad at dreuliau

allanol yr achos, tu allan i'r weinidogaeth. Yn nechreu y flwyddyn 1866 codwyd Thomas A. Alban yn drysorydd, a Morgan H. Morgan yn ysgrifenydd yr adran hon: a pharhasant i wasanaethu felly, gyda eu gilydd, hyd ymadawiad Mr. Morgan i Horeb, yn 1881, pryd y codwyd Thomas J. Morris yn ei le. Er ys rhai blynyddoedd bellach mae yr adran yn llaw y Bwrdd yr ymddiriedolwyr, a thrysorydd ac ysgrifenydd Bwrdd sydd yn gwneyd y gwaith a gyflawnwyd am gynifer o flynyddoedd gan y brodyr uchod.

---

# EGLWYS SEION.

### *Y DIACONIAID.*

**Abraham Jones.**—Gall eglwys Seion ddweyd. "Ein tad ni yw Abraham." Yr oedd ef yn ddiacon yn ffurfiad yr eglwys. Dewisodd yr eglwys **John Breese,** i fod yn gydswyddog ag ef, yr hwn a wasanaethodd yr eglwys yn ffyddlawn fel diacon am bumtheg mlynedd, pryd y bu farw Rhagfyr 23, 1878, yn 70 mlwydd oed. (Gwel Y Cyfaill, Awst, 1879, t. d. 304.)

Yna etholwyd **Thomas Hughes** yn ddiacon at y brawd Abraham Jones: a bu yntau yn ffyddlon am 17 o flynyddau. pan y bu farw Medi 20, 1896, o fewn ychydig ddyddiau i fod yn 78 mlwydd oed.

### *YSGRIFENYDDION.*

**Hugh F. Jones** am ddeg mlynedd. Bu farw Ebrill 8, 1886.
**John M. Jones** am dair blynedd.
**Griffith H. Jones** yn awr yn y swydd er ys ugain mlynedd.

### *ARWEINYDDION CANU.*

**John Breese** hyd o fewn dwy flynedd i'w farwolaeth, a bu **Thomas Hughes** yn gynorthwy iddo y blynyddoedd diweddaf; gwaeledd iechyd Breese yn ei luddias. **Thomas Tibbot** o 1876 hyd 1881. **Griffith H. Jones** o hyny hyd yn awr.

### *Y GWEINIDOGION SEFYDLOG.*

**Y Parch Hugh Pugh.**—Daeth yma Rhagfyr 17, 1854, a gwasanaethodd yn ffyddlon, yn ngwyneb llawer iawn o anfan-

teision, hyd 1865. Yn 1868 symudodd i gymeryd gofal eglwys Sugar Creek, Swydd Putnam, lle y bu farw Awst 12, 1878. (Gwel Y Cyfaill am Mehefin 1879, t. d. 209; hefyd t. d. 224.)

**Y Parch John P. Morgan.**—Daeth yma o swydd Jackson yn niwedd 1865. Ordeiniwyd ef yn Nghymanfa Cincinnati, yn 1866. Gwasanaethodd gyda gallu neillduol a graddau helaeth o lwyddiant am agos i ddwy flynedd ar bymtheg, sef hyd Wanwyn 1883. pryd y gorfu iddo, er tristyd mawr i'r eglwysi, ymryddhau oddiwrth yr ofalaeth fugeiliol, a rhoi heibio bregethu, o herwydd i'w iechyd ballu. Mae y sefydliad yn neillduol o ddyledus i'r ddau weinidog uchod.

**Y Parch Hugh Davies.**—Wedi blwyddyn o arosiad dychwelodd i Wilkesbarre, Pa.

**Y Parch R. Vaughan Griffiths.**—Wedi dwy flynedd symudodd i'r Gorllewin.

**Y Parch Thomas Roberts.**—Wedi gwasanaethu am bum mlynedd symudodd i Gymru.

Dechreuodd y gweinidog presenol ar ei wasanaeth Tachwedd 1, 1895

Salem yw y fam eglwys, ac nid oedd ond pymtheg o gyflawn aelodau pan sefydlwyd hi yn ffurfiol gan y Parch Howell Powell, Ebrill 1849, sef Mr. a Mrs. William Bebb, a thri o'r plant, Mr. a Mrs. Richard Jervis, Mr. a Mrs. David Owen, Mr. a Mrs. Edward J. Jones, Mr. D. M. Jones, a Mrs. Richard Jones. Felly, nid oes ond pedwar o honynt yn aros, sef Mr. Richard Jervis, Mr. David Owen, a Mr. a Mrs. David M. Jones.

Yn 1863, aeth Seion allan o honi, 21 o gyflawn aelodau; ac nid oes ond naw o'r rhai hyny yn aros, sef Mr. a Mrs. Abraham Jones, Mr. a Mrs. John George, Mrs. Thomas Hughes, Mrs. Richard Thomas, Mrs. Richard Hughes, Mri. Lewis Jones, a William H. Jones; y ddau diweddaf yn awr yn aelodau yn Salem.

Ar Mehefin 15, 1881, aeth eglwys Horeb allan o honi; 38 o gyflawn aelodau.

Yn 1890 aeth eglwys Bethel allan; ugain o gyflawn aelodau.

Er fod y merched erbyn heddyw yn deuluoedd cryfion o'i hamgylch, eto, nid oes arwyddion henaint ar y fam. Teimla, edrycha, a gweithreda mor ieuanc ag erioed; tafla ymaith wisgoedd y dyddiau gynt, ac ymdrwsia yn nillad yr oes. "Mae'yn ys-

gafn ei throed fel yr ewig," ac y mae gwrid y rhosyn yn harddu ei gruddiau. Nid peth hapus i fam yn aml yw gweled ei merched yn cefnu arni, yn gadael yr hen gartref a myn'd i wneyd cartref iddynt eu hunain; ond byddai yn annaturiol iddi beidio gofalu trostynt, a llawenhau yn eu llwyddiant, ac i'r merched beidio parhau i garu eu mam. Hyderwn y bydd i ysbryd y berthynas, ac i ysbryd Crist fyned ar gynydd yn y cylch, fel bydd y fam yn gallu dweyd, "Fy mhlant, O, fy mhlant!" a'r merched yn ateb yn ol, "Fy mam! fy anwyl fam!!"

Digwyddodd damwain fawr pan adeiliadwyd capel presenol Salem; cwympodd wyth o ddynion o'i pen trwy i drawst dori. Yr oedd saith o honynt yn Gymry. sef y Parch J. P. Morgan, D. W. Evans, William E. Jones, Hugh E. Evans, Jonathan Jones, D. M. Jones a John Breese. Y ddau ddiweddaf anafwyd fwyaf; torodd Mr. Jones ei asenau, a Mr. Breese ei forddwyd, a bu yn gloff hyd ei ddiwedd.

Adeiladwyd capel presenol Salem yn 1866. Mae y capel hynaf mewn gwasanaeth a welodd y sefydliad, pedair blynedd ar bymtheg oedd tymhor gwasanaeth y capel cyntaf, ond y mae hwn dros ddeg ar hugain oed. Bydd y sefydliad yn haner cant oed yn 1898; a disgwyliwn y dathlir Jubili y sefydliad, gyda thy newydd hardd i'r fam-eglwys, a llyfr yn cynwys hanes yr holl sefydliad o'i gychwyniad.

Mawrhawn ein breintiau, a byddwn ddiolchgar. Frodyr anwyl, "Byddwn sicr a diymod, a helaethion yn ngwaith yr Arglwydd yn wastadol, a chwi yn gwybod nad yw eich llafur yn ofer yn yr Arglwydd."

Ydym yn rhwyman cariad yr efengyl,

Y SWYDDOGION.

# Ystadegau a Chyfrifon Eglwys Salem, Venedocia, Swydd Van Wert, Ohio, am y Flwyddyn 1896.

## Y SWYDDOGION.

BUGAIL, Y PARCH EDWARD ROBERTS.

PARCH J. P. MORGAN, GWEINIDOG.

Diaconiaid:—DAVID M. JONES, THOMAS A. ALBAN, D. W. EVANS, JOHN T. THOMAS a T. J. MORRIS.

Ysgrifenydd:—D. W. EVANS. Trysorydd:—T. J. MORRIS.

Y Pwyllgor Canu:—ROBERT R, THOMAS. W. C. MORGAN, RICHARD S. BREESE, JOHN B. JONES. a JOHN E. JONES.

Organyddes:—MISS JENNIE RICHARDS.

| | | |
|---|---|---|
| Rhif yr Aelodau Cyflawn, Ionawr 1, 1896 | | 262 |
| Derbyniwyd drwy Lythyrau | 17 | |
| Derbyniwyd o'r Gwrandawyr | 6 | |
| Derbyniwyd o'r Plant | 28 | |
| Cynydd yn ystod y Flwyddyn | | 51 |
| Cyfanrif yr Aelodau Cyflawn | | 313 |
| Ymadawodd drwy Lythyrau | 10 | |
| Diarddelwyd | 1 | |
| Gwrthgiliodd, | 1 | |
| Bu Farw | 1 | |
| Lleihad yn ystod y Flwyddyn | | 13 |
| Rhif yr Aelodau Cyflawn, Ionawr 1, 1897 | | 300 |
| Rhif Plant yr Eglwys | | 126 |
| Bedyddiwyd | | 10 |

# Adroddiad yr Ysgrifenydd a'r Trysorydd.

DERBYNIADAU AT Y WEINIDOGAETH.

| | | |
|---|---|---|
| Casglwyd gan Eglwys Salem, yn 1896.......... | $861.71 | |
| Rent.......................................... | 75.00 | |
| Ar law Ionawr 1, 1896......................... | 143.76 | |
| Cyfanswm...... | | $1080.47 |
| Talwyd i'r Parch Edward Roberts............. | | 900.00 |
| Ar law Ionawr 1, 1897,.................. | | $ 180.47 |

| | | |
|---|---|---|
| Casglwyd at Gymanfa a'r Cyfarfod Dosbarth.. | $24.85 | |
| Ar law Ionawr 1, 1896........................ | 17.48 | |
| Cyfanswm...... | | $42.33 |
| Taliadau:— | | |
| I'r Cyfarfod Dosbarth Sugar Creek......... | $15.00 | |
| I anfon y Parch Ed. Roberts i Gymanfa Oak Hill.............................. | 5.00 | |
| I'r Cyfarfod Dosbarth yn Cincinnati, Ohio, | 15.00 | |
| Cyfanswm...... | | $35.00 |
| Ar law Ionawr 1, 1897.................. | | $ 7.33 |

| | | |
|---|---|---|
| Casglwyd i weinidogion achlysurol................ | | $ 53.59 |
| Casgliad Sabbothol y Setiau...................... | | 66.60 |
| Casglwyd i Miss Catharine Price.................. | | 36.40 |
| Ar law Ionawr 1, 1896............................ | | 5.96 |
| Cyfanswm...... | | $162.55 |
| Taliadau— | | |
| I'r Gweinidogion achlysurol ............... | $71.59 | |
| I'r Trustees............................... | 14.86 | |
| I Miss Price............................... | 36.40 | |
| Am Win..................................... | 10.50 | |
| Cyfanswm...... | | 133.35 |
| Ar law Ionawr 1, 1897,.................. | | $ 29.20 |

**Cyfanswm yr Holl Gasgliadau yn Eglwys Salem yn 1896.**

| | |
|---|---|
| CASGLWYD:—At y Weinidogaeth........................ | $935.71 |
| Gymanfa a'r Cyfarfod Dosbarth................. | 24.00 |

| | |
|---|---|
| | 959.71 |
| Weinidogaeth achlysurol a chasgliad y Setiau, etc. | 162.55 |
| Y Treuliau Allanol | 271.80 |
| Genadaeth | 213.73 |
| Yr Ysgol Sabbathol | 20.45 |
| Beibl Gymdeithas | 120.00 |
| Tysteb i Mr. John D. Richards | 61.05 |
| Y Boxes Casglu | 9.90 |
| Cyfanswm | $1818.69 |

## Adran y Trustees.

### Y BWRDD:

Llywydd:—Mr. Thomas A. Alban.
Ysgrifenydd:—Wm. J. Bebb.
Trysorydd:—Edward R. Hughes.

### DERBYNIADAU.

| | |
|---|---|
| Oddiwrth y Gynulleidfa | $238.99 |
| Oddiwrth Gyngherdd Thomas, Cymru | 6.92 |
| O Seion at yr Insurance | 9.88 |
| Oddiwrth Gasgliad y Setiau | 14.86 |
| Ar law Ionawr 1, 1896 | 70 |
| Cyfanswm | $271.80 |

### TALIADAU.

| | |
|---|---|
| Insurance ar y Persondy | $13.00 |
| Adgyweirio y Persondy | 26.59 |
| Glanhau a goleuo, &c. | 88.00 |
| Olew a man bethau | 58.14 |
| Coed at adgyweirio y Capel | 33.73 |
| Carpet a Lampau | 14.50 |
| Cadeiriau i'r Capel | 25.34 |
| Insurance ar y Capel | 12.00 |
| Cyfanswm | $271.80 |

## Adran yr Ysgol Sabbothol.

### SWYDDOGION.

Arolygwyr:—Mri. Wm. J. Bebb, a Wm. C. Morgan,
Is-Arolygwr:—Mr. Wm. E. Jones.
Ysgrifenydd:—Henry R. Jones.
Trysorydd:—Thomas Evans.

ARWEINWYR CANU:—John C. Foster a Richard Breese.
ORGANYDDES:—Miss Maggie Jane Breese.

Athrawon 20; Athrawesau 11—31.
Rhif yr Ysgol gan gynhwys Elgin—321

### CYFRIFON ARIANOL.

| | |
|---|---|
| Arian ar law Ionawr 1, 1896............ | $ .40 |
| Casglwyd yn ystod y flwyddyn.......... | 20.05 |
| Cyfanswm...... | $20.45 |

| | | |
|---|---|---|
| TALWYD:—At y Cyfarfodydd Ysgolion.. | $2.80 | |
| Am Lyfrau trwy law J, C. Foster... | 5.00 | |
| Am Lyfrau trwy law Parch Roberts | 3.89 | |
| Am Lyfrau trwy law Jones & Jones | 2.32 | |
| | | 14.01 |
| Gweddill ar law Ionawr 1, 1897.. | | $ 6.44 |

## Adroddiad y Bwrdd Cenadol am 1896.

Llywydd:—THOMAS A. ALBAN.
Is-Lywydd:—EVAN FOSTER.
Trysorydd:—MORRIS B. JONES.
Ysgrifenydd:—OWEN B. OWENS.

Cyfarwyddwyr { EDWARD R. HUGHES. THOMAS J. MORRIS. JOHN C. GEORGE.

| | |
|---|---|
| Derbyniwyd a chyfranwyd at Gymdeithas Gartrefol..... | $92.65 |
| Derbyniwyd a chyfranwyd at y Gymdeithas Dramor..... | 84.40 |
| Oddiwrth y Gymdeithas Ymdrechol at y Dramor......... | 36.68 |
| Cyfanswm...... | $213.73 |

### Etholwyd y Bwrdd Canlynol ar Gyfer 1897.

Llywydd:—DR. DAVID DAVIES.
Is-Lywydd:—JOHN H. REESE.
Trysorydd:—MORRIS B. JONES.
Ysgrifenydd:—JOHN C. GEORGE.

Cyfarwyddwyr { JAMES P. MORGAN. DAVID J. EVANS. WM. H. JONES.

OWEN B. OWENS, Ysgrifenydd.

# EGLWYS SALEM.

---

## ENWAU A CHYFRANIADAU AELODAU A GWRANDAWYR AM Y FLWYDDYN 1896.

---

**DYNODIR Y GWRANDAWYR GYDA *. Y RHAI SYDD HEB FOD YN GYFLAWN AELODAU GYDA †.**

---

| | At y Weinidogaeth. | At Dreuliau Allanol. | At y Genadaeth. | Cyfansswm. |
|---|---|---|---|---|
| Alban, Mr. a Mrs. Thomas A. | | | | |
| *Alban, David | | | | |
| Alban, Ethel | | | | |
| †Alban, Thomas Acorn | | | | |
| †Alban, Geo. Edward | | | | |
| Ashton, Mrs, Sarah | | | | |
| Ashton, Edward | | | | |
| Ashton, Sarah Ann | | | | |
| Breese, Mrs. Mary | | | | |
| Breese, Mr. a Mrs. Richard S. | | | | |
| Breese, Mr. a Mrs. John S. | | | | |
| Breese, Maggie Jane | | | | |
| Breese, Mary | | | | |
| Breese, Flora | | | | |
| Breese, Mrs. Hannah | | | | |
| Breese, Mrs. Mary (Bethel) | | | | |

| | Wein. | D. A. | Gen. | Cyf. |
|---|---|---|---|---|
| Bebb, John | | | | |
| Bebb, William J. | | | | |
| Bebb, Wm. John | | | | |
| Bebb, Goodwin L. | | | | |
| Bebb, David Rowland | | | | |
| Baxter, Mrs. Elizabeth | | | | |
| Davies, Mr. a Mrs. Evan G | | | | |
| Davies, Lizzie M | | | | |
| Davies, Elmer | | | | |
| Davies, Mr. a Mrs. John H. | | | | |
| Davis, Dr. a Mrs. David | | | | |
| †Davis, Morgan | | | | |
| Davies, Mr. a Mrs. D. J. | | | | |
| Davies, Evan J | | | | |
| Davies, Martha Ann | | | | |
| Davies, Maggie | | | | |
| Davies, John E. | | | | |
| Davies, Mr. a Mrs. Thomas L | | | | |
| Davies, Wm. L. | | | | |
| Evans, Mr. a Mrs. Evan B. | | | | |
| Evans, Mr. a Mrs. Evan A. | | | | |
| Evans, Winnie | | | | |
| †Evans, Flora A. | | | | |
| Evans, Mr. a Mrs. Hugh E | | | | |
| Evans, Evan E. | | | | |
| Evans Thomas A | | | | |
| Evans, Alban J. | | | | |
| Evans, D. Luther | | | | |
| Evans, J. Elsworth | | | | |
| Evans, Eunice | | | | |
| †Evans, Myrtle | | | | |
| †Evans, Zelma | | | | |
| Evans, Mr. a Mrs. Thomas | | | | |
| Evans, Mr. a Mrs. Richard M. | | | | |

| | Wein. | D. A. | Gen. | Cyf. |
|---|---|---|---|---|
| Evans, Jane M | | | | |
| Evans, Mary Ann | | | | |
| Evans, Maurice | | | | |
| Evans, Katie | | | | |
| Evans, Agnes | | | | |
| †Evans, Maggie | | | | |
| Evans, Ella O | | | | |
| Evans, Mr. a Mrs. Rowland | | | | |
| Evans, Mrs. Sarah A | | | | |
| Evans, John R | | | | |
| Evans, Robert F | | | | |
| Evans, William A | | | | |
| Evans, D. W | | | | |
| Evans, Laura Ann | | | | |
| Evans, David B | | | | |
| Evans, Mr. a Mrs. William B | | | | |
| Evans, Mr. a Mrs. William W | | | | |
| Evans, Thomas Walter | | | | |
| Evans, Annie Jane | | | | |
| †Evans, Maud | | | | |
| Evans, Mr. a Mrs. Richard O | | | | |
| Evans, Mable | | | | |
| †Evans, Russel | | | | |
| Evans, Mr. a Mrs. Daniel O | | | | |
| †Evans, Irene | | | | |
| †Evans, Helen | | | | |
| Evans, Mr. a Mrs. David J | | | | |
| Evans, Mrs. Jane L | | | | |
| Evans, Hannah E | | | | |
| Evans, Llewelyn L | | | | |
| Edwards, Mr. a Mrs. David H | | | | |
| Evans. John W | | | | |
| Edwards, Ann | | | | |
| Evans, Mr. a Mrs. Edwin J | | | | |
| *Edwards, Dr. Ed | | | | |

| | Wein. | D. A. | Gen. | Cyf. |
|---|---|---|---|---|
| *Edwards, John | | | | |
| Foster, Mr. a Mrs. Evan | | | | |
| Foster, John C | | | | |
| Foster, Harriet | | | | |
| Foster, T. Arthur | | | | |
| Foster, Nelson | | | | |
| †Foster, Olivia | | | | |
| †Foster, Alice B | | | | |
| Hughes, Mrs. Jane | | | | |
| Hughes, Mary Ann | | | | |
| Hughes, Mr. a Mrs. Edward R | | | | |
| Hughes, Hattie J | | | | |
| Hughes, Annie May | | | | |
| Hughes, Mr. a Mrs. John R. (Ven.) | | | | |
| Hughes, Mr. a Mrs. John Richard | | | | |
| Humphreys, Ellis | | | | |
| Hughes, Mr. a Mrs. John R. (Elgin) | | | | |
| Hughes, Mrs. Jane | | | | |
| Hughes, Mr. a Mrs. David T | | | | |
| Hughes, Robert | | | | |
| *Hughes, Maggie A | | | | |
| George, John C | | | | |
| †George, John Gilbert | | | | |
| †George, Maurice | | | | |
| Griffith, David T | | | | |
| Griffith, John | | | | |
| Griffith, Mrs. Ellen | | | | |
| Griffith, Elizabeth Jane | | | | |
| Griffith, Thomas M | | | | |
| Goodwin, Mrs. Mary | | | | |
| Jervis, Richard | | | | |
| Jervis, Mary Ellen | | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. William E | | | | |
| Jones, Henry R | | | | |

| | Wein. | D. A. | Gen. | Cyf. |
|---|---|---|---|---|
| Jones, Mrs. Margaret J | | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. Thomas C | | | | |
| Jones, Mrs. Margaret | | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. Moses P | | | | |
| †Jones, Mary Alice | | | | |
| †Jones, Hannah Irene | | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. John E | | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. David M | | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. David B | | | | |
| †Jones, Mary C | | | | |
| †Jones, Laura Bebb | | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. John B | | | | |
| †Jones, Elenor Laura | | | | |
| †Jones, Elizabeth Mildred | | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. Maurice B | | | | |
| †Jones, Morgan Palmer | | | | |
| Jones, Mrs. Mary Jane | | | | |
| Jones, Peter Everette | | | | |
| Jones, Laura Annie | | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. John W | | | | |
| Jones, Edith | | | | |
| Jones, Oliver | | | | |
| Jones, Eva | | | | |
| †Jones, Esther | | | | |
| †Jones, Claudia | | | | |
| *Jones, John J | | | | |
| Jones, Mrs. Elizabeth T | | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. Lewis M | | | | |
| Jones, Mrs. Martha Ann | | | | |
| Jones, Mrs. Sarah S | | | | |
| Jones, Sarah Jane | | | | |
| Jones, Richard W | | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. William H | | | | |
| Jones, Alice | | | | |
| Jones, Roger | | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. Edward W | | | | |

| | Wein. | D. A. | Gen. | Cyf. |
|---|---|---|---|---|
| Jones, Lizzie A | | | | |
| †Jones, Lwella | | | | |
| †Jones, Gladys | | | | |
| †Jones, Evalyn | | | | |
| Jones, Maggie | | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. David E | | | | |
| Jones, E. T | | | | |
| Jones, John C | | | | |
| Jones, H. T | | | | |
| Jones, D. C | | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. David T | | | | |
| †Jones, Odie Ann | | | | |
| Jones, Mrs. Jemimah | | | | |
| Jones, Mary M | | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. Thomas W | | | | |
| Jones, Hannah | | | | |
| Jones, Howell | | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. Lewis W | | | | |
| Jones, Mary S | | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. John G | | | | |
| Jones, Gabriel Wm | | | | |
| Jones, Jennie | | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. Thomas A | | | | |
| Jones, Richard D | | | | |
| Jones, Martha | | | | |
| Jones, Sarah | | | | |
| Jenkins, Mr. a Mrs. John L | | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. John Elias | | | | |
| †Jones, L. Saunders | | | | |
| †Jones, J. Everett | | | | |
| †Jones, W. Waldo | | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. John E | | | | |
| Jones, William T | | | | |
| Jones, Maggie J | | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. Edward E | | | | |
| Jones, Steven | | | | |
| Jones, Annie | | | | |
| *Jones, Robert S | | | | |

| | Wein. | D. A. | Gen. | Cyf. |
|---|---|---|---|---|
| *Lloyd, John B. a Mrs. | | | | |
| †Lloyd, James Russell | | | | |
| Lloyd, Mr. a Mrs. Evan E | | | | |
| †Lloyd, John Calvin | | | | |
| Morgan, Parch J. P | | | | |
| Morgan, J. Pryse | | | | |
| Morgan, Anna | | | | |
| Morgan, Elizabeth | | | | |
| Morgan, Margaret L | | | | |
| Morgan, Elizabeth J | | | | |
| Morgan, Lizzie A | | | | |
| Morgan, Mr. a Mrs William C. | | | | |
| †Morgan, Mattie E. | | | | |
| †Morgan, Willie T | | | | |
| †Morgan, Esther Anna | | | | |
| †Morgan, Agnes M. | | | | |
| †Morgan, Lawrence Ervil | | | | |
| †Morgan. Leonard Richard | | | | |
| Morgan. John M | | | | |
| Morris, Mrs. Margaret | | | | |
| Morris, Margaret A | | | | |
| †Morris, Estella | | | | |
| †Morris, Livella | | | | |
| Morris, F. O. | | | | |
| Morris. Mr. a Mrs. David C. | | | | |
| Morris, Mr. a Mrs. Eben | | | | |
| Morris, Mr. a Mrs. Thomas J | | | | |
| Meredith, Mr. a Mrs. Evan | | | | |
| Meredith, Mr. a Mrs. William | | | | |
| Owens, Mrs. Hannah | | | | |
| Owens, Mary | | | | |
| Owens, Mr. a Mrs. David | | | | |
| Owens, Mrs. Rachel | | | | |
| Owens, Owen B. | | | | |
| Owens, John B. | | | | |
| Pugh, Mrs. Martha | | | | |
| Pugh, Mrs. Ellen | | | | |

| | Wein. | D. A. | Gen. | Cyf. |
|---|---|---|---|---|
| Pugh, Hugh | | | | |
| Pugh, Elizabeth | | | | |
| Pugh, Mary Ellen | | | | |
| Pugh, Laura | | | | |
| †Pugh, David G. | | | | |
| Price, Mr. a Mrs. John G. | | | | |
| Price, Thomas J | | | | |
| Price, Wm. J | | | | |
| Price, David J | | | | |
| Price, Jenkin J | | | | |
| Parry, Mrs. Esther | | | | |
| Parry, Mary Caroline | | | | |
| Roberts, Mrs. Ann | | | | |
| Roberts, Parch Edward a Mrs. | | | | |
| †Roberts, John Rhys | | | | |
| †Roberts, Blodwen | | | | |
| †Roberts, Griff Ellis | | | | |
| †Roberts, Jane Olwen | | | | |
| †Roberts, Edward ,Howell | | | | |
| Roberts, Mr. a Mrs. Hugh | | | | |
| Rees, Mrs. Jane | | | | |
| Richards, Mr. a Mrs. Hugh O. | | | | |
| *Roberts, William | | | | |
| Richards, Mr. a Mrs. John | | | | |
| Richards, Mary Elenor | | | | |
| Richards, John M. | | | | |
| Rees, David W | | | | |
| Rees, Mr. a Mrs. John H. | | | | |
| Rees, Mr. a Mrs. Thomas W | | | | |
| Richards, John D. | | | | |
| Richards, Jennie | | | | |
| Richards, Heber | | | | |
| Rees, Maggie J | | | | |
| Rees, William | | | | |
| Thomas, Mr. a Mrs. John T | | | | |
| Thomas, Thomas R. | | | | |
| Thomas, Sarah | | | | |

| | Wein. | D. A. | Gen. | Cyf. |
|---|---|---|---|---|
| Thomas, Mr. a Mrs. Hugh R. | | | | |
| Thomas, Mr. a Mrs. Robert R | | | | |
| Thomas, James | | | | |
| Tudor, Richard B | | | | |
| Tudor, Sedora | | | | |
| †Tudor, Viola | | | | |
| Thomas, Mr. a Mrs. Joseph E. | | | | |
| Thomas, Eben. R | | | | |
| Thomas, Joseph R. | | | | |
| Thomas, Mary E. | | | | |
| †Thomas, Maggie A. | | | | |
| †Thomas, J. Leonard | | | | |
| †Thomas, Jervis O. | | | | |
| Thomas, Josiah | | | | |
| Thomas, Evan | | | | |
| Williams, Mrs. Ann | | | | |
| Williams, Mr. a Mrs. D. W | | | | |
| Williams, Mary Frances | | | | |
| Williams, Morgan Elmer | | | | |
| Williams, William Alwin | | | | |
| †Williams, Ann | | | | |
| †Williams, Elizabeth Norma | | | | |
| †Williams, David Wilard | | | | |
| †Williams, Ruth Evelin | | | | |
| †Williams, John Oscar | | | | |
| Williams, Mrs. Lizzie E. | | | | |
| Williams, Nora | | | | |
| †Williams, Mary Edna | | | | |
| Whittington, Mrs. Mary | | | | |
| Wilson, Griff | | | | |
| Whittington, Mrs. John | | | | |
| Whittington, Hugh | | | | |
| Williams, Mr. a Mrs. Thomas E. | | | | |
| Williams, Mr. a Mrs. William T. | | | | |
| Dieithriaid | | | | |
| Jones, W. G. | | | | |
| Jones, Mary W. | | | | |
| Jones, Elizabeth | | | | |

# Ystadegau a Chyfrifon Eglwys Seion, Swydd Van Wert, Ohio, am y Flwyddyn 1896.

---

## Y SWYDDOGION.

GWEINIDOG:—PARCH EDWARD ROBERTS.

Diaconiaid:—ABRAHAM JONES, a THOMAS HUGHES.

Ysgrifenydd:—GRIFFITH H. JONES.

Trysorydd:—JOHN GEORGE.

Arweinydd Canu:—GRIFFITH H. JONES.

Organists { HOWELL A. JONES.
MAGGIE JONES.
LIZZIE ANN JONES.

Ymddiriedolwyr:—DAVID E. DAVIES, JOHN J. JONES a ABRAHAM B. JONES.

---

### Nifer yr Aelodau.

| | | |
|---|---|---|
| Rhif yr Aelodau, Ionawr 1, 1896, .................. | 94 | |
| Derbyniwyd drwy Lythyrau.................... | 6 | |
| Derbyniwyd o'r Plant........................ | 8 | |
| | — | 108 |
| Ymadawodd drwy Lythyrau.................... | 11 | |
| Bu Farw.................................... | 2 | |
| Rhif yr Aelodau. Ionawr 1, 1897.............. | 95 | |
| | — | 108 |
| Rhif Plant yr Eglwys, Ionawr 1, 1897............. | 58 | |

# Adroddiad y Trysorydd.

DERBYNIADAU AT Y WEINIDOGAETH.

| | | |
|---|---|---|
| Ar law Ionawr 1, 1896, | $ 66.90 | |
| Cyfraniadau yr Aelodau | 272.40 | |
| Cyfraniadau y Gwrandawyr | 12,00 | |
| Casgliadau Cyffredinol | 44.06 | |
| Rhent y Parsondy | 75.00 | |
| Cyfanswm | | $420 36 |

TALIADAU.

| | | |
|---|---|---|
| I'r Parch Edward Roberts am Weinidogaethu | $300.00 | |
| I John R. Lloyd | 15.00 | |
| I Genhadwr o Persia | 5.16 | |
| I'r Parch R. V. Griffiths | 15.75 | |
| I'r Parch Hugh Davies | 8.00 | |
| Trosglwyddwyd i'r Casgliad Misol | .15 | |
| Ar law Ionawr 1, 1897 | 76.30 | |
| | | $420.36 |

## Casgliad Misol.

| | | |
|---|---|---|
| Ar law Ionawr 1, 1896 | $18.33 | |
| Cyfraniadau yr Aelodau | 51.05 | |
| Derbyniwyd o'r Cyffredinol | .15 | |
| Cyfanswm | | $69.53 |

TALIADAU.

| | | |
|---|---|---|
| I'r Parch Edwards o Gymry | $ 5.00 | |
| I'r Cyfarfodydd Dosbarth | 10.00 | |
| I'r Gymanfa | 5.00 | |
| I'r Ysgrifenydd am blanks llythyrau | 1.50 | |
| I Jones & Jones am Win, &c., | 3.59 | |
| I James A. Thomas am Oil | 3.28 | |
| Am Insurance y Parsondy ¼ | 3.25 | |
| Am adgyweirio y Parsondy | 6.58 | |
| I David Price am oleio a glanhau y Capel | 22.50 | |
| Ar law Ionawr 1, 1897 | 8.88 | |
| Cyfanswm | | $69.58 |

## Y Genhadaeth.

| | |
|---|---|
| Casglwyd yn ystod y flwyddyn | $62.90 |

**TALIADAU.**

| | |
|---|---|
| At y Gartrefol | $24.15 |
| At y Dramor | 26.75 |
| I'r Home Mission (Saesoneg) | 12.00 |
| Cyfanswm | $62.90 |

### Y Gymdeithas Feiblaidd

Casglyddion:—MOSES GEORGE a R. T. DAVIS.

| | |
|---|---|
| Casglwyd | $25.15 |
| Talwyd | 25.15 |

## Adran yr Ysgol Sabbothol.

**SWYDDOGION.**

AROLYGWYR:—Mri. G. H, Jones, J. J. Jones.
IS-AROLYGWYR:—Mr. J. J. Jones, John E. Davis.
YSGRIFENYDD:—Richard T. Davis.
TRYSORYDD:—G. H. Jones.

| | |
|---|---|
| Rhif yr Ysgol | 130 |
| Rhif yr Athrawon ar Dosbarthiadau | 14 |

| | |
|---|---|
| Arian ar law Ionawr 1, 1896 | $6.37 |
| Casglwyd yn ystod y flwyddyn | 2.32 |
| Cyfanswm | $ 8.69 |
| Treuliau y flwyddyn | $4.75 |
| Ar law Ionawr 1, 1897 | $3.94 |

## Adran y Gymdeithas Ymdrechol.

**SWYDDOGION.**

Llywyddion:—JOHN D. BREESE, ABRAHAM B. JONES.
Is-Lywyddion:—MISS SUSIE J. JONES, MISS MAGGIE JONES.
Ysgrifenyddion:—MISS MAGGIE JONES, MISS MARY A. DAVIS.
Trysoryddion:—A. B. JONES, MOSES GEORGE.

| | | |
|---|---|---|
| Rhif yr aelodau Ionawr 1, 1896.................. | 44 | |
| Derbyniwyd o'r newydd. ...................... | 7 | |
| Derbynion o'r Juniors yn active.................. | 5 | |
| Cyfanrif....... | | 56 |
| Ymadawodd drwy lythyrau...................... | 5 | |
| Bu farw...................................... | 1 | |
| Ymadawodd heb lythyrau....................... | 2 | |
| Rhif yr aelodau Ionawr 1, 1897................. | 48 | |
| Cyfanrif...... | | 56 |

| | |
|---|---|
| Casglwyd yn ystod y flwyddyn........................ | $11.06 |
| Talwyd allan....................................... | 11.00 |
| Ar law Ionawr 1, 1897...... | $ .06 |

# EGLWYS SEION.

## ENWAU A CHYFRANIADAU YR AELODAU A'R PLANT AM Y FLWYDDYN 1896.

| | At y Weinidogaeth. | At y Misol. | At y Genadaeth. | Cyfansum. |
|---|---|---|---|---|
| Jones, Mr. a Mrs. Abraham......... | | | | |
| Hughes, Mr. a Mrs. Thomas........... | | | | |
| Hughes, Julia..................... | | | | |
| George, Mr. a Mrs. John............. | | | | |
| George, Dora...................... | | | | |
| George, Edna...................... | | | | |
| Thomas, Mary...................... | | | | |
| Hughes, Ann....................... | | | | |
| Hughes, Jane...................... | | | | |
| Price, Mr. a Mrs. James R........... | | | | |
| Price, Lizzie..................... | | | | |
| Davies, Hannah.................... | | | | |

| | Wein. | Misol | Gen. | Cyf. |
|---|---|---|---|---|
| Evans, Mary | | | | |
| Davies, Mrs. Thomas B | | | | |
| Williams, Cathrine | | | | |
| Williams, Katie | | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. Benjamin F | | | | |
| Jones, Mr. a Mrs Edward E | | | | |
| Jones, Annie E | | | | |
| Jones, Jane M, | | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. Richard H | | | | |
| Jones, Maggie | | | | |
| Jones, Lizzie Jane | | | | |
| Jones, Susie H | | | | |
| Jones, Abraham | | | | |
| Jones, Mary Hazel | | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. Humphrey H | | | | |
| Jones, John Griffiths | | | | |
| Jones, Mary Anna, | | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. Abraham B | | | | |
| Jones, Howell A | | | | |
| Jones, Alban | | | | |
| Jones, Margaret Ann | | | | |
| Jones, Oscar | | | | |
| Jones, Irvin | | | | |
| Jones, Gladys | | | | |
| Jones, Eunice | | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. David J | | | | |
| Jones, John L | | | | |
| Jones, Lizzie Ann | | | | |
| Jones, Edwin | | | | |
| Jones, Ada | | | | |
| Jones, Mary | | | | |
| Jones, Evan E | | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. John J | | | | |
| Jones, Mary E | | | | |
| Jones, Annie J | | | | |
| Jones, John P | | | | |
| Jones, Edna | | | | |
| Jones, Osworld | | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. Griffith H | | | | |
| Jones, Magaret Howell, | | | | |

| | Wein. | Misol | Gen. | Cyf. |
|---|---|---|---|---|
| Jones, Blodwen | | | | |
| Jones, Ruth A. | | | | |
| Davis, Mr. a Mrs. David E. | | | | |
| Davis, Richard T. | | | | |
| Davis, Mary Ann | | | | |
| Davis, Minor | | | | |
| Jones, Mr. a Mrs. David John | | | | |
| Jones, Susie J. | | | | |
| Jones, Benjamin G. | | | | |
| Breese, Mr. a Mrs. John D. | | | | |
| Breese, Jennie | | | | |
| Breese, David J. | | | | |
| Rowlands, Mr. and Mrs. Daniel | | | | |
| George, Moses | | | | |
| George, William | | | | |
| George, Frankie | | | | |
| Breese, Mr. a Mrs. Thomas O. | | | | |
| Breese, David D. | | | | |
| Davies, Mr. and Mrs. John E. | | | | |
| Jones, Mrs. Mariah | | | | |
| Morris, Mrs. Winifred | | | | |
| Lewis, Mrs. Mary C. | | | | |
| Jones, Mrs. Edward R. | | | | |
| Hughes, Mrs. Jennie | | | | |
| Hughes, Edith | | | | |
| Jones, Elizabeth | | | | |
| Lloyd, Mr. a Mrs Richard | | | | |
| Lloyd, Mary | | | | |
| Prichard, Mr. a Mrs Richard L. | | | | |
| Price, Mr. a Mrs. David | | | | |
| Price, David W. | | | | |
| Price, James W. | | | | |
| Price, Mary Ann | | | | |
| Price, Maggie | | | | |

| | Wein. | Misol | Gen. | Cyf. |
|---|---|---|---|---|
| Williams, Mr. a Mrs. Evan B. | | | | |
| Williams, Lizzie | | | | |
| Edwards, Mrs. Jane | | | | |
| Edwards, Ruth | | | | |
| Edwards, Bessie | | | | |
| Edwards, Gladys | | | | |
| Jones, Isaac Newton | | | | |
| Evans, Mr. a Mrs. William | | | | |
| Lewis, John D. | | | | |
| Price, Mrs. Allen | | | | |
| Jones, Mrs. William D. | | | | |
| Jones, Miss Lizzie D. | | | | |

**Gwrandawyr.**

| | Wein. | Misol | Gen. | Cyf. |
|---|---|---|---|---|
| Owens, Richard W. | | | | |
| Owens, Ellen | | | | |
| Owens, Mary Ann | | | | |
| Owens, Hannah Jane | | | | |
| Hughes, Thomas R. | | | | |
| Morris, John E. | | | | |
| Lewis, David E. | | | | |
| Breese, Sarah | | | | |
| Breese, Jane | | | | |
| Hughes, Evan | | | | |
| Jones, John M. | | | | |
| Lloyd, William | | | | |

# Bedyddiadau a'r Marwolaethau.

---

Gan mai Tachwedd 1, 1895, y darfu i ni ddechreu ar ein gweinidogaeth yma, teimlwn fel rhoddi y Bedyddiadau a'r Marwolaethau yn y ddwy eglwys o hyny hyd ddiwedd 1896.

EDWARD ROBERTS.

## *BEDYDDIADAU.*

Tachwedd 2, 1895, ELIZABETH MILDRED, plentyn Mr. a Mrs. John B, Jones, Salem.

Rhagfyr 20, 1895, JOHN RUSSELL, plentyn Mr, a Mrs. Richard Pritchards, Seion.

Ionawr 3, 1896, PALMER, plentyn Mr. a Mrs. William George, Seion.

Ionawr 8, 1896, MARGUERITE, plentyn Mr. a Mrs. Robert R. Thomas, Salem.

Ionawr 8, 1896, THOMAS RUSSELL, plentyn Mr. a Mrs. David J. Davies, Salem

Ionawr 22, 1896, ELLA MARGERETA plentyn Mr, a Mrs. John J. Jenkins, Salem.

Ionawr 22, 1896, JOHN HOWARD, plentyn Mr. a Mrs. John Richard Hughes, Salem.

Mai 20, 1896, LEONARD a JANE KNIPE, plant amddifaid Jane, merch Mrs. Evan Meredith, Salem. Bu y baban JANE farw yn Medi.

Mai 20, 1896, HANNAH IRINE, plentyn Mr. a Mrs Moses P. Jones, Salem.

Mehefin 24, 1896, RICHARD HERBERT, plentyn Mr. a Mrs, Thomas W. Rees, Salem.

Medi 11, 1896, WILLIAM HAYDEN, plentyn Mr. a Mrs. Abraham B. Jones, Seion.

Medi 28, 1896, DAVID GORDON, a THOMAS GLEASON, efeilliaid i Mr. a Mrs. Eben Morris, Salem.

## *MARWOLAETHAU.*

Rhagfyr 4, 1895, **Mrs. William J. Bebb,** Salem. Claddwyd yn Gomer. Gwraig rinweddol iawn. (Gwel Y Cyfaill, Mawrth 1896, t. d. 113.)

Rhagfyr 28, 1895, **David J. Edwards**, Seion. Claddwyd yn Tomlinson.

Mai 6, 1896, **Owen O. Pugh,** Salem. (Gwel Y Cyfaill, Medi, 1896, t. d. 355.)

Mai 19, 1896, **Miss Julia A. Hughes,** Seion, yn 18 mlwydd ac 8 mis oed. Claddwyd yn Tomlinson.

Medi 20, 1896, **Thomas Hughes,** Seion, yn 77 mlwydd, 11 mis a 6 diwrnod oed. Gwasanaethodd eglwys Seion fel diacon yn ffyddlon iawn am 17 o flynyddoedd. Claddwyd yn Tomlinson.

# GYMRY!

Mi fyddai yn dda genyf gael cyfarfod a phob Cymro yn Swydd Van Wert, ag yr wyf yn cymerid y cyfleusdra hwn i wahodd pob

## CYMRO A CHYMRAES

hen ac ieuanc, i ddod i fewn i SWYDDFA Y REPUBLICAN pan yn Van Wert.

Hefyd y mae yn dda genif eich hysbysu ein bod yn awr yn barod a pherffaeth abl i argraphu pob peth yn Gymraeg neu yn Saesonaeg. Hefyd i

## *Rwymo Llyfrau*

o bob math am brisiau rhesymol. Byddaf yn ddiolchgar am eich cefnogaeth a byddwn yn falch gael eich henwau fel tanysgrifwyr i'r

## VAN WERT REPUBLICAN.

Ymdrechwn roddi yr oll o newyddion y Swydd ynddo, ac o hyn allan talwn sylw neillduol i newyddion o ddyddordeb i Gymry.

Ydwyf yr eiddoch,

**D. J. EVANS.**